| | |
|---|---|
| Fersiwn | 2 |
| Dyddiad Diwygio Diwethaf | Ebrill 2025 |

Y Berthynas Waith
Cyngor Rhondda Cynon Taf, gweithio gyda chi, gweithio gyda'n gilydd

gweithio'nwell
workwell

Employee Relations
Rhondda Cynon Taf Council, working with you, working together

# Polisi Absenoldeb Cymorth Mamolaeth, Gofal Newyddenedigol ac Absenoldeb Tadolaeth

Mae'r ddogfen yma ar gael yn y Saesneg - gweler Leave of Absence Policy

| RHEOLI'R DDOGFEN | |
|---|---|
| **ENW'R POLISI** | **Polisi Absenoldeb Cymorth Mamolaeth ac Absenoldeb Tadolaeth** |
| Adran | Adnoddau Dynol |
| Rhif Ffôn | 01443 444501<br>01443 444502<br>01443 444503 |
| Dyddiad Cychwynnol Cyflwyno'r Polisi | Mawrth 2015 |
| Swyddog Adolygu | Alison Cade, Peter Cushion, Richard Evans |
| | |
| Dyddiad yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb | Chwefror 2015 |
| | |
| | |
| **HANES DIWYGIO** | |
| Dyddiad | Diwygiwyd gan |
| Ebrill 2025 | Gweithgor Polisïau |
| | |
| | |
| | |
| | |
| **CYMERADWYO'R DDOGFEN** | |
| Mae'r ddogfen yma wedi'i chymeradwyo gan: | Dyddiad Cymeradwyo |
| Uwch-reolwyr Adnoddau Dynol | Dd/B |
| Carfan y Rheolwyr Corfforaethol | Dd/B |
| Cabinet | Dd/B |

**CYNNWYS**

**AMCAN** ……….................................................................................................... 5

**ABSENOLDEB CYFNOD**

**MAMOLAETH**................................................................... 5

Cynhaliwr Enwebedig ................................................................ 5

Cymhwysedd ar gyfer Absenoldeb Cymorth Mamolaeth.............................. 6

Rhoi rhybudd ar gyfer Absenoldeb Cymorth Mamolaeth............................... 6

Cyflwyno cais am Absenoldeb Cymorth Mamolaeth................................... 6

Absenoldeb Cymorth Mamolaeth: Mabwysiadu/Benthyg Croth................. 6

Rhoi rhybudd ar gyfer Absenoldeb Cymorth Mamolaeth: Mabwysiadu ....... 7

Rhoi rhybudd ar gyfer Absenoldeb Cymorth Mamolaeth: Benthyg Croth ..... 7

Cyflwyno cais am Absenoldeb Cymorth Mamolaeth yn achos Mabwysiadu/Benthyg Croth .. 7

**ABSENOLDEB TADOLAETH**............................................................................ 8

Prif Ddarpariaethau Absenoldeb Tadolaeth............................. ............ 8

Cymhwysedd ar gyfer Absenoldeb Tadolaeth ................................... 8

Rhoi rhybudd ar gyfer Absenoldeb Tadolaeth ............................. . 9

Cyflwyno cais am Absenoldeb Tadolaeth ....... ............................. 9

Tâl Tadolaeth Statudol ................................................. 9

Absenoldeb Tadolaeth: Mabwysiadu/Benthyg Croth .............. 9

Cymhwysedd ....................... .... 9

Cymryd Absenoldeb........................................................................ 10

Rhoi rhybudd ............................................................................ 10

Cyflwyno cais am Absenoldeb Tadolaeth yn achos Mabwysiadu/Benthyg Croth ..... 10

**ABSENOLDEB GOFAL NEWYDDENEDIGOL**………………………………………………... 11

Beth yw Gofal Newyddenedigol?........................................................................ 11

I bwy mae'n berthnasol?............................................................... 11

A oes meini prawf cymhwysedd? ........................................................ 11

Pa absenoldeb neu dâl sydd ar gael?........................................... 12

Mabwysiadu a Benthyg Croth…………………………………………… 12

Faint o absenoldeb sydd ar gael ar gyfer genedigaethau lluosog?................................ 13

Pryd galla i ei gymryd?............................................................... 13
Effaith ar absenoldeb/taliadau statudol eraill?................................. 14
Oes rhaid i mi roi rhybudd i gymryd absenoldeb?............................... 15
Profedigaeth……………………………………………………… …. 16

**CYNNWYS**

**Cyfeiriadau**

**Atodiadau:**

Atodiad 1 Cyflwyno cais am Absenoldeb a Thâl Cymorth Mamolaeth
Atodiad 2 Cyflwyno cais am Absenoldeb a Thâl Tadolaeth
Atodiad 3 Cyflwyno cais am Absenoldeb a Thâl Gofal Newyddenedigol
Atodiad 4 Siart llif Absenoldeb Gofal Newyddenedigol

## 1. AMCAN

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn gwneud popeth yn ei allu i gynorthwyo rhieni sy'n gweithio. Mae'r polisi yma'n rhoi canllawiau a gwybodaeth am Gymorth Mamolaeth, Absenoldeb Gofal Newyddenedigol ac Absenoldeb i Rieni.

Mae polisïau ar gael hefyd ar gyfer Absenoldeb a rennir i Rieni ac Absenoldeb yn achos Mabwysiadu neu Fenthyg Croth.

## 2. ABSENOLDEB CYFNOD MAMOLAETH

Bydd Absenoldeb a Thâl Cymorth Mamolaeth o 5 diwrnod o hyd yn cael ei roi i dad y plentyn neu bartner, tad mabwysiadol, y rhiant bwriadedig neu i ofalwr enwebedig y fam feichiog ar (neu o gwmpas) adeg y geni. Rhaid i'r 5 diwrnod gael eu cymryd cyn pen 14 diwrnod o leoli'r plentyn, o'r dyddiad geni neu o'r plentyn yn dod adref o'r ysbyty, a hynny mewn bloc o 5 diwrnod yn unig.

Does dim cyfnod cymhwyso ar gyfer Absenoldeb Cymorth Mamolaeth.

Bydd y 5 diwrnod o Absenoldeb Cymorth Mamolaeth ar gyflog llawn. Os bydd unigolyn sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer Absenoldeb Tadolaeth yn dymuno cymryd ail wythnos o absenoldeb tadolaeth, bydd hyn yn cael ei dalu ar y gyfradd Tâl Tadolaeth Statudol.

### 2.1. Cynhaliwr (Gofalwr) Enwebedig

Cynhaliwr enwebedig yw'r person sydd wedi cael ei enwebu gan y fam i helpu i ofalu am y plentyn a rhoi cymorth i'r fam ar adeg - neu o gwmpas adeg - y geni, o fewn y cyfnod o amser sydd wedi'i bennu yn Adran 2 uchod.

Dylid nodi mai dim ond un person a all gymryd yr Absenoldeb Cymorth Mamolaeth ac mae disgwyl, yn y lle cyntaf, i'r person yma fod yn dad y plentyn, y tad mabwysiadol, y rhiant bwriadedig neu bartner y fam.

Serch hynny, mewn amgylchiadau lle does dim un o'r rhain ar gael i gynorthwyo'r fam, mae modd iddi enwebu person arall yn gynhaliwr enwebedig.

.

### 2.2. Cymhwysedd ar gyfer Absenoldeb Cymorth Mamolaeth

Bydd angen i weithwyr fodloni'r amodau canlynol er mwyn bod yn gymwys ar gyfer Absenoldeb Cymorth Mamolaeth.

Mae rhaid mai nhw yw:

tad biolegol y plentyn, y tad mabwysiadol, y tad bwriadedig neu ŵr neu bartner y fam (gan gynnwys partneriaid o'r un rhyw) neu os nad yw un

o'r rhain ar gael, cynhaliwr enwebedig y fam feichiog ar, neu o gwmpas, adeg y geni.

Dim ond un person a gaiff ganiatâd i gael Absenoldeb Cymorth Mamolaeth.

## 2.3. Rhoi rhybudd ar gyfer Absenoldeb Cymorth Mamolaeth

Bydd hi'n ofynnol i weithiwr roi rhybudd o 28 diwrnod i'w rheolwr llinell o'u bwriad i gymryd Absenoldeb Cymorth Mamolaeth. Bydd angen i'r unigolyn gadarnhau:

- yr wythnos mae disgwyl i'r babi gael ei eni, neu ddiwrnod disgwyliedig lleoli'r plentyn yn achos mabwysiadu.
- mai nhw yw un ai tad biolegol y plentyn, y tad mabwysiadol, y tad bwriadedig, gŵr neu bartner y fam (gan gynnwys partneriaid o'r un rhyw) neu, os nad yw un o'r rhain ar gael, cynhaliwr enwebedig y fam feichiog ar, neu o gwmpas, adeg y geni.
- pryd bydd diwrnod cyntaf yr absenoldeb (rhaid ei gymryd cyn pen 14 diwrnod o leoli'r plentyn, neu o'r geni, neu o'r plentyn yn dod adref o'r ysbyty).
- mai nhw yw'r unig berson sy'n cyflwyno cais am Absenoldeb Cymorth Mamolaeth ac nad oes unrhyw berson arall wedi ei enwebu yn gynhaliwr.

## 2.4. Cyflwyno cais am Absenoldeb Cymorth Mamolaeth

Bydd hi'n ofynnol i'r gweithiwr lenwi ffurflen gais o'r enw 'Cais am Absenoldeb Cymorth Mamolaeth'. Mae'r ffurflen gais yn cynnwys datganiad bod y gweithiwr yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd ac mai nhw yw'r unig berson sy'n cyflwyno cais am Absenoldeb Cymorth Mamolaeth.

## 2.5. Absenoldeb Cymorth Mamolaeth: Mabwysiadu/Benthyg Croth

Bydd Absenoldeb a Thâl Cymorth Mamolaeth o 5 diwrnod o hyd yn cael ei roi i dad mabwysiadol y plentyn neu bartner neu gynhaliwr enwebedig y fam fabwysiadol, ar, neu o gwmpas, adeg y mabwysiadu, a rhaid ei gymryd cyn pen 14 diwrnod o leoli'r plentyn.

Y cynhaliwr enwebedig yw'r person sydd wedi cael ei enwebu gan y fam i helpu i ofalu am y plentyn a rhoi cymorth i'r fam ar adeg - neu o gwmpas adeg - y lleoli. Y disgwyl yw mai'r tad mabwysiadol, y rhiant bwriadedig neu'r partner fydd y person enwebedig yn y lle cyntaf. Serch hynny, mewn amgylchiadau lle does dim un o'r rhain ar gael i gynorthwyo'r fam, mae modd iddi enwebu person arall yn ei le.

Does dim cyfnod cymhwyso ar gyfer Absenoldeb Cymorth Mamolaeth.

Yn achos benthyg croth, bydd yr Absenoldeb Cymorth Mamolaeth yn cael ei gymeradwyo o gwmpas adeg y geni a rhaid ei gymryd cyn pen 14 diwrnod o'r geni neu leoli'r plentyn gyda'r rhieni bwriadedig. Bydd y 5 diwrnod o Absenoldeb Cymorth Mamolaeth ar gyflog llawn. Os bydd unigolyn sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer Absenoldeb Tadolaeth yn dymuno cymryd ail wythnos o Absenoldeb Tadolaeth, bydd hyn yn cael ei dalu ar y gyfradd Tâl Tadolaeth Statudol.

**2.6. Rhoi rhybudd ar gyfer Absenoldeb Cymorth Mamolaeth: Mabwysiadu**

Yn achos mabwysiadu, bydd hi'n ofynnol i weithiwr roi gwybod i'w rheolwr llinell o'u bwriad i gymryd Absenoldeb Cymorth Mamolaeth cyn pen 7 diwrnod o gael gwybod gan eu hasiantaeth fabwysiadu eu bod wedi cael eu paru â phlentyn, os yw hynny'n rhesymol ymarferol.

Bydd angen i'r unigolyn roi gwybod i'w rheolwr am y canlynol:

- Pryd mae disgwyl i'r plentyn gael ei leoli
- Mai nhw yw'r tad mabwysiadol neu bartner neu gynhaliwr enwebedig mam fabwysiadol.
- Pryd bydd diwrnod cyntaf yr absenoldeb (rhaid ei gymryd cyn pen 14 diwrnod o leoli'r plentyn).
- mai nhw yw'r unig berson sy'n cyflwyno cais am Absenoldeb Cymorth Mamolaeth ac nad oes unrhyw berson arall wedi ei enwebu yn gynhaliwr.

**2.7. Rhoi rhybudd ar gyfer Absenoldeb Cymorth Mamolaeth: Benthyg Croth**

Yn achos benthyg croth, bydd hi'n ofynnol i weithiwr roi rhybudd o 28 diwrnod i'w rheolwr llinell o'u bwriad i gymryd Absenoldeb Cymorth Mamolaeth. Bydd angen i'r unigolyn gadarnhau:

- Y dyddiad mae disgwyl i'r babi gael ei eni
- Mai nhw yw'r rhiant bwriadedig o dan drefniant benthyg croth ac yn disgwyl bod â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn
- Pryd mae eisiau i'w habsenoldeb ddechrau (rhaid ei gymryd cyn pen 14 diwrnod o'r geni neu'r dyddiad mae'r plentyn yn dod adref o'r ysbyty, neu leoli'r plentyn gyda'r rhieni bwriadedig)
- mai nhw yw'r unig berson sy'n cyflwyno cais am Absenoldeb Cymorth Mamolaeth ac nad oes unrhyw berson arall wedi ei enwebu yn gynhaliwr.

**2.8. Cyflwyno cais am Absenoldeb Cymorth Mamolaeth yn achos Mabwysiadu/Benthyg Croth**

Bydd gofyn i'r gweithiwr lenwi ffurflen gais, sef 'Cais am Absenoldeb a Thâl Cymorth Mamolaeth'. Mae'r ffurflen gais yn cynnwys datganiad bod y gweithiwr yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd ac mai nhw yw'r unig berson sy'n cyflwyno cais am Absenoldeb Cymorth Mamolaeth.

## 3. ABSENOLDEB TADOLAETH

Mae'r hawl i gymryd Absenoldeb Tadolaeth ar gael i dad biolegol y plentyn neu berson sydd yn briod â mam y plentyn, neu ei phartner sifil hi. Mae hefyd ar gael lle mae pâr yn mabwysiadu plentyn neu'n ymrwymo i drefniant benthyg croth, i'r rhiant neu'r partner sydd ddim yn cymryd absenoldeb mabwysiadu neu fenthyg croth. Mae'r diffiniad o bartner yn cynnwys partneriaid o'r un rhyw.

I fod yn gymwys ar gyfer Absenoldeb Tadolaeth, rhaid i'r gweithiwr fod â chyfrifoldeb dros fagwraeth y plentyn (neu'n disgwyl bod â chyfrifoldeb) a rhaid eu bod nhw'n cymryd yr absenoldeb i ofalu am y plentyn.

### 3.1. Prif Ddarpariaethau Absenoldeb Tadolaeth

Mae hawl gan weithwyr sy'n gymwys i gael Absenoldeb Tadolaeth ddewis cymryd un ai wythnos neu 2 wythnos olynol (D.S. Does dim hawl i gymryd diwrnod nawr ac yn y man).

Caiff gweithwyr ddewis dechrau eu cyfnod absenoldeb:

- O ddyddiad geni’r plentyn (boed hyn yn gynharach neu’n hwyrach na’r disgwyl) neu
- O unrhyw ddiwrnod yn wythnos geni’r plentyn neu’r wythnos wedyn ond rhaid ei gwblhau:
- Cyn pen 56 diwrnod o ddyddiad gwirioneddol geni’r plentyn, neu
- Os yw’r plentyn yn cael ei eni’n gynnar, o fewn y cyfnod o ddyddiad gwirioneddol geni’r plentyn hyd at 56 diwrnod ar ôl wythnos ddisgwyliedig y geni.

Dim ond un cyfnod o absenoldeb fydd ar gael i weithwyr waeth a oes mwy nag un plentyn yn cael ei eni o ganlyniad i’r un beichiogrwydd.

**D.S**. Caiff wythnos o Absenoldeb Tadolaeth ei chyfnewid am wythnos o Absenoldeb Cymorth Mamolaeth ar gyflog llawn os yw'r meini prawf sydd wedi'u nodi yn 2.2 uchod yn cael eu bodloni. Dylid nodi bod rhaid cymryd Absenoldeb Cymorth Mamolaeth cyn pen 14 diwrnod o leoli plentyn sy'n cael ei fabwysiadu, neu o eni'r plentyn, neu o'r plentyn yn

dod adref o'r ysbyty, a dim ond un person a gaiff gymryd yr absenoldeb yma.

**3.2. Cymhwysedd ar gyfer Absenoldeb Tadolaeth**

Bydd angen i weithiwr fodloni'r amodau canlynol er mwyn bod yn gymwys ar gyfer Absenoldeb Tadolaeth.

Mae rhaid eu bod nhw:

- Â chyfrifoldeb dros fagwraeth y plentyn, neu'n disgwyl hynny
- Yn dad biolegol y plentyn neu ŵr/partner y fam (gan gynnwys partneriaid o'r un rhyw)
- Wedi gweithio i'r Cyngor am 26 wythnos yn ddi-dor erbyn y pymthegfed wythnos cyn i'r babi gael ei eni neu erbyn yr wythnos y cawn nhw wybod am y mabwysiadu.

**3.3. Rhoi rhybudd ar gyfer Absenoldeb Tadolaeth**

Bydd hi'n ofynnol i weithiwr roi rhybudd o 28 diwrnod i'w rheolwr llinell o'u bwriad i gymryd Absenoldeb Tadolaeth. Bydd angen i'r unigolyn gadarnhau:

- Y dyddiad mae disgwyl i'r babi gael ei eni
- A ydyn nhw am gymryd absenoldeb o wythnos neu bythefnos
- Pryd maen nhw eisiau i'w habsenoldeb ddechrau.

**3.4. Cyflwyno cais am Absenoldeb Tadolaeth**

Bydd gofyn i'r gweithiwrr lenwi ffurflen gais o'r enw 'Cais am Absenoldeb Tadolaeth' yn dystiolaeth o'u hawl i Dâl Tadolaeth Statudol. . Mae'r ffurflen gais yn cynnwys datganiad bod y gweithiwr yn bodloni'r meini prawf.

**3.5. Tâl Tadolaeth Statudol**

Caiff Tâl Tadolaeth Statudol ei dalu ar yr un gyfradd â chyfradd safonol Tâl Mamolaeth Statudol.

**3.6. Absenoldeb Tadolaeth: Mabwysiadu/Benthyg Croth**

Mae Absenoldeb Tadolaeth ar gael i'r rheiny sy'n mabwysiadu a gweithwyr sydd wedi ymrwymo i gytundeb/trefniant benthyg croth. Mae hawl gyda'r gweithiwr i gymryd wythnos neu bythefnos (mewn bloc) o absenoldeb.

Rhaid ei gymryd cyn pen 56 diwrnod o leoli'r plentyn.

**Cymhwysedd**

Mae'r absenoldeb ar gael at ddibenion gofalu am blentyn neu gynorthwyo'r rhiant sy'n mabwysiadu'r plentyn neu'r rhiant benthyg. I fod yn gymwys, rhaid bod y gweithiwr:

- wedi gweithio i'r Cyngor am 26 wythnos yn ddi-dor erbyn diwedd yr wythnos pan fydd y rhiant sy'n mabwysiadu yn cael gwybod eu bod wedi cael eu paru â phlentyn.
- yn briod â'r sawl sy'n mabwysiadu'r plentyn/y rhiant benthyg, neu fod yn bartner iddyn nhw; ac
- yn disgwyl bod â chyfrifoldeb dros fagwraeth y plentyn
- Dim ond un cyfnod o absenoldeb a gaiff gweithiwr, waeth sawl plentyn sy'n cael eu mabwysiadu neu nifer y plant benthyg croth sy'n cael eu geni

**Cymryd Absenoldeb**

Yn achos mabwysiadu, caiff y gweithiwr ddewis dechrau'r absenoldeb ar:

- Y dyddiad y caiff y plentyn ei leoli gyda'r rhiant sy'n mabwysiadu
- Nifer benodol o ddyddiau ar ôl i'r plentyn gael ei leoli; neu
- Ar ddyddiad sydd wedi'i drefnu ymlaen llaw ar ôl dyddiad disgwyliedig lleoli'r plentyn

Yn achos benthyg croth, caiff y gweithiwr ddechrau'r absenoldeb ar:

- Y dyddiad mae disgwyl i'r plentyn gael ei eni
- Nifer benodol o ddyddiau ar ôl y dyddiad geni disgwyliedig
- Ar ddyddiad sydd wedi'i drefnu ymlaen llaw ar ôl y dyddiad geni disgwyliedig

**Rhoi rhybudd**

Yn achos mabwysiadu, bydd hi'n ofynnol i weithiwr roi gwybod i'w rheolwr llinell o'u bwriad i gymryd Absenoldeb Tadolaeth cyffredin cyn pen saith diwrnod o gael gwybod eu bod wedi cael eu paru â phlentyn gan eu hasiantaeth fabwysiadu, os yw hynny'n rhesymol ymarferol.

Bydd angen i'r unigolyn roi gwybod i'w rheolwr am y canlynol:

- Pryd mae disgwyl i'r plentyn gael ei leoli
- A ydyn nhw am gymryd absenoldeb o wythnos neu bythefnos
- Pryd maen nhw eisiau i'w habsenoldeb ddechrau

Yn achos benthyg croth, bydd hi'n ofynnol i weithiwr roi rhybudd o 28 diwrnod i'w rheolwr llinell o'u bwriad i gymryd Absenoldeb Tadolaeth cyffredin. Bydd angen i'r unigolyn gadarnhau:

- Y dyddiad mae disgwyl i'r babi gael ei eni
- A ydyn nhw am gymryd absenoldeb o wythnos neu bythefnos
- Pryd maen nhw eisiau i'w habsenoldeb ddechrau.

Bydd gweithiwr yn cael newid eu meddwl ynghylch y dyddiad maen nhw am i'w habsenoldeb ddechrau ar yr amod eu bod yn rhoi gwybod i'w cyflogwr o leiaf 28 o ddiwrnodau ymlaen llaw (os yw hynny'n rhesymol ymarferol). Bydd rhaid i weithiwr roi gwybod i'w rheolwr o leiaf 28 diwrnod ymlaen llaw am y dyddiad maen nhw'n disgwyl i unrhyw Dâl Tadolaeth Statudol ddechrau, os yw hynny'n rhesymol ymarferol.

**Cyflwyno Cais am Absenoldeb Tadolaeth yn achos Mabwysiadu/Benthyg Croth**

Bydd gofyn i'r gweithiwr lenwi ffurflen gais o'r enw 'Cais am Absenoldeb a Thâl Tadolaeth Cyffredin' yn dystiolaeth o'u hawl i Dâl Tadolaeth Statudol. Mae'r ffurflen gais yn cynnwys datganiad bod y gweithiwr yn bodloni'r meini prawf.

## 4.0 TÂL AC ABSENOLDEB GOFAL NEWYDDENEDIGOL

Mae Deddf Tâl ac Absenoldeb Gofal Newyddenedigol 2023 yn rhoi hawl statudol i rieni cyflogedig i Absenoldeb Gofal Newyddenedigol ac, os ydyn nhw'n gymwys, Tâl Gofal Newyddenedigol os yw eu babi yn derbyn gofal newyddenedigol am 7 diwrnod llawn parhaus neu fwy o fewn y 28 diwrnod cyntaf ar ôl ei eni.

Bydd yr hawl yn caniatáu i rieni cyflogedig gymryd hyd at 12 wythnos o Absenoldeb Gofal Newyddenedigol (bydd hyn yn ychwanegol at eu hawliau absenoldeb i rieni statudol arferol). Mae modd cymryd hyn am o leiaf wythnos ac am uchafswm o 12 wythnos.

Mae hyn yn berthnasol i fabis wedi'u geni ar 6 Ebrill 2025 neu ar ôl hynny.

### 4.1 Beth yw Gofal Newyddenedigol?

- Gofal meddygol sy'n cael ei roi yn yr ysbyty.
- Gofal meddygol sy'n cael ei roi mewn man arall cyhyd â bod y plentyn yn glaf mewnol yn yr ysbyty ac mae angen gofal parhaus arno; gofal dan gyfarwyddyd ymgynghorydd ac sy'n cynnwys monitro parhaus ac ymweliadau gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol wedi'u trefnu gan yr ysbyty lle'r oedd y plentyn yn glaf mewnol.
- Gofal diwedd oes neu ofal lliniarol

### 4.2 I bwy mae'n berthnasol?

Bydd Tâl ac Absenoldeb ar gael i ystod eang o 'rieni', gan gynnwys rhieni mabwysiadol, rhieni sy'n maethu er mwyn mabwysiadu a darpar rieni yn rhan o drefniadau benthyg croth.

Rhaid i chi fod yn weithiwr a bod â pherthynas gymwys â'r plentyn;

- Rhiant y plentyn, rhiant bwriadedig neu bartner mam y plentyn ar adeg y geni; neu
- Mabwysiadwr neu ddarpar fabwysiadwr y plentyn, neu bartner y naill neu'r llall ar ddyddiad lleoli'r plentyn.
- Ni ddylai'r partner fod yn blentyn, rhiant, ŵyr neu wyres, taid neu nain, brawd neu chwaer, modryb, ewythr, nith na nai'r rhiant arall.

## 4.3 A oes meini prawf cymhwysedd?

Mae Absenoldeb Gofal Newyddenedigol yn hawl o ddiwrnod **cyntaf** eich cyflogaeth.

Bydd Tâl Gofal Newyddenedigol **statudol** hefyd yn berthnasol i weithwyr sy'n bodloni'r gofyniad ynghylch parhad gwasanaeth (26 wythnos o gyflogaeth barhaus) ac sy'n bodloni trothwy enillion gofynnol o enillion wythnosol arferol dros gyfnod o 8 wythnos sy'n dod i ben gyda'r 'wythnos berthnasol' o ddim llai na'r terfyn enillion isaf at ddibenion cyfraniad yswiriant gwladol.

Yr wythnos berthnasol yw naill ai;

- O ran geni, y 15fed wythnos cyn yr wythnos ddisgwyliedig ar gyfer yr enedigaeth os oes gyda chi hawl i Dâl Mamolaeth Statudol neu Dâl Tadolaeth Statudol.
- O ran mabwysiadu, yr wythnos y cewch wybod eich bod wedi'ch paru â'r plentyn i'w fabwysiadu, os oes gyda chi hawl i Dâl Mabwysiadu Statudol neu Dâl Tadolaeth Statudol.
- Os nad yw'r naill na'r llall o'r uchod yn berthnasol, yr wythnos yn union cyn yr wythnos y mae'r gofal newyddenedigol yn dechrau fydd hi.

## 4.4 Pa absenoldeb neu dâl sydd ar gael?

### Absenoldeb

Bydd gyda gweithiwr cymwys hawl i wythnos o Absenoldeb Gofal Newyddenedigol am bob wythnos ddi-dor y mae'r babi'n derbyn gofal newyddenedigol.

Bydd hyn yn dechrau ar ôl i'r plentyn dderbyn 7 diwrnod o ofal di-dor, wedi'i gyfrif o'r diwrnod ar ôl i'r gofal newyddenedigol ddechrau.

Caiff pob wythnos o absenoldeb ei gymryd yn ddyledus.

Y cyfnod lleiaf y mae modd ei gymryd yw wythnos o Absenoldeb Gofal Newyddenedigol a'r uchafswm yw 12 wythnos.

Mae modd cymryd Absenoldeb Gofal **Newyddenedigol** hyd at 68 wythnos ar ôl dyddiad geni'r babi.

***Enghraifft o hawl i Absenoldeb Gofal Newyddenedigol***

*Mae babi Imi wedi'i eni ar 7 Ebrill ac mae angen gofal newyddenedigol arno ar unwaith. Mae eu babi yn derbyn gofal newyddenedigol tan 22 Ebrill.*
*Mae'r 7 diwrnod olynol yn dechrau ar 8 Ebrill ac yn gorffen ar 15 Ebrill. Mae'r babi wedi bod yn derbyn gofal newyddenedigol am 2 wythnos gyflawn gan gynnwys y dyddiau cymwys cyntaf. Mae Imi wedi cronni cyfanswm o 2 wythnos o Absenoldeb Gofal Newyddenedigol.*

**Tâl**

Mae tâl gofal **newyddenedigol** yn dechrau **ar ôl** i'r plentyn fod yn derbyn gofal am 7 diwrnod neu fwy. Mae tâl naill ai;

- Yr hyn sy'n cyfateb i daliadau statudol sy'n gysylltiedig â theuluoedd.
- 90% o enillion wythnosol cyfartalog lle mae'r enillion wythnosol cyfartalog yn llai na'r taliad statudol.

## 4.5 Mabwysiadu a Benthyg Croth

Mae'r prif fabwysiadwr a'r mabwysiadwr eilaidd, neu fabwysiadwyr sengl yn gymwys i gael Absenoldeb Gofal Newyddenedigol.

Mae angen i'r 7 diwrnod cyntaf o ofal newyddenedigol ddechrau ar ôl **dyddiad lleoli'r plentyn sy'n cael ei fabwysiadu**.

Mae angen i rieni gymryd yr absenoldeb cyn diwedd 68 wythnos o'r dyddiad y caiff y plentyn ei leoli gyda'r mabwysiadwr.

**Mabwysiadau Tramor**

Ar gyfer mabwysiadu tramor, mae angen cymryd yr absenoldeb cyn diwedd 68 wythnos o'r **dyddiad y mae'r plentyn yn cyrraedd Prydain Fawr**.

**Mabwysiadu mwy nag 1 plentyn**

Gall rhieni gymryd yr un faint o absenoldeb newyddenedigol hyd yn oed os ydyn nhw'n mabwysiadu mwy nag 1 babi yn yr un lleoliad sy'n derbyn gofal newyddenedigol. Er enghraifft, efeilliaid yn derbyn gofal newyddenedigol ar yr un pryd.

Os oes nifer o leoliadau mabwysiadu ond ar wahân, yna mae modd cymryd absenoldeb ar gyfer pob plentyn hyd at uchafswm o 12 wythnos.

**Benthyg Croth**

Bydd darpar rieni sy'n rhan o drefniant benthyg croth yn gymwys am Absenoldeb Gofal Newyddenedigol os ydyn nhw:

- wedi gwneud cais am orchymyn rhianta
- yn bwriadu gwneud cais am orchymyn rhianta cyn pen 6 mis i enedigaeth y plentyn

Mae'r ddau ddarpar riant yn gymwys i gael Absenoldeb Gofal Newyddenedigol.

Bydd y 7 diwrnod cyntaf yn dechrau o'r dyddiad geni. Mae angen i rieni gymryd yr absenoldeb cyn diwedd 68 wythnos o'r dyddiad geni.

### 4.6 Faint o absenoldeb sydd ar gael ar gyfer genedigaethau lluosog?

Mae cyfanswm y cyfnod absenoldeb yr un fath, fodd bynnag, mae modd ei gymryd ar gyfer pob plentyn.

*Er enghraifft, mae Adi wedi rhoi genedigaeth i dripledi. Mae 2 o'r tripledi yn derbyn gofal newyddenedigol ar unwaith am bythefnos. Mae hyn yn golygu y bydd Adi yn gallu cymryd pythefnos o Absenoldeb Gofal Newyddenedigol.*

*3 wythnos ar ôl eu genedigaeth, mae'r trydydd babi yn derbyn gofal newyddenedigol am wythnos. Mae Adi bellach yn gymwys i gael 3 wythnos o Absenoldeb Gofal Newyddenedigol. Mae Adi yn rhoi rhybudd i ychwanegu'r 3 wythnos at ddiwedd eu Habsenoldeb Mamolaeth.*

### 4.7 Pryd galla i ei gymryd?

Mae modd cymryd Tâl ac Absenoldeb mewn dwy haen, sef Haen 1 a Haen 2;

**Haen 1** — dyma gyfnod pan fydd y babi yn dal i dderbyn gofal newyddenedigol, ac yn cynnwys wythnos ar ôl i'r gofal ddod i ben.

Mae modd cymryd absenoldeb yn ystod Haen 1 mewn blociau nad ydyn nhw'n barhaus o o leiaf wythnos.

**Enghraifft o absenoldeb Haen 1**

*Mae babi Pat yn cael ei eni'n gynnar ac mae'n cael gofal newyddenedigol am gyfanswm o 4 wythnos o'r dyddiad geni. Mae Pat yn cymryd pythefnos o Absenoldeb Tadolaeth yn union ar ôl yr enedigaeth. Yna maen nhw'n cymryd pythefnos arall o Absenoldeb Gofal Newyddenedigol yn olynol pan fydd eu Habsenoldeb Tadolaeth yn dod i ben. Mae gan Pat 2 wythnos arall o Absenoldeb Gofal Newyddenedigol wedi'u cronni i'w cymryd yn ddiweddarach.*

**Haen 2** — dyma'r cyfnod y tu allan i gyfnod Haen 1 a chyn diwedd 68 wythnos o ddyddiad geni'r babi.
Rhaid cymryd absenoldeb yn Haen 2 mewn un bloc parhaus.

**Enghraifft o absenoldeb Haen 2**

*Mae babi Pat bellach gartref ar ôl cyfanswm o 4 wythnos yn derbyn gofal newyddenedigol. Mae Pat yn rhoi rhybudd i gymryd y pythefnos sy'n weddill o Absenoldeb Gofal Newyddenedigol ymhen mis. Mae hyn yn caniatáu i Pat gymryd amser i ffwrdd cyn gynted â phosibl i barhau â gofal y babi gartref.*

## 4.8 Effaith ar absenoldeb/taliadau statudol eraill?

Mae Absenoldeb Gofal Newyddenedigol yn ychwanegol at yr absenoldeb canlynol statudol:

- Absenoldeb Mamolaeth
- Absenoldeb Tadolaeth
- Absenoldeb Mabwysiadu
- Absenoldeb a rennir i Rieni

Does dim modd cymryd dau fath ar yr un pryd.

*Mae gweithiwr wedi gofyn am 2 wythnos o Absenoldeb Tadolaeth pan gaiff eu plentyn ei eni. Mae eu plentyn yn derbyn gofal newyddenedigol ar unwaith. Gall y gweithiwr barhau i gymryd Absenoldeb Gofal Newyddenedigol, ond bydd yn cael ei ychwanegu at ddiwedd yr Absenoldeb Tadolaeth.*

Efallai y bydd angen i rieni nad ydyn nhw eisoes ar gyfnod absenoldeb gymryd math arall o absenoldeb am y 7 diwrnod cyntaf. Caiff pob wythnos o absenoldeb ei gymryd yn ddyledus.

Efallai y bydd angen i rieni nad ydyn nhw ar gyfnod absenoldeb gymryd math arall o absenoldeb am y 7 diwrnod cyntaf.

*Er enghraifft, mae Sam wedi trefnu cael pythefnos o Absenoldeb Tadolaeth ar ddiwedd mis Mai. Cafodd babi Sam ei eni'n gynnar a derbyniodd ofal newyddenedigol ar 14 Ebrill. Mae'r babi'n derbyn gofal tan 2 Mai. Does dim hawl i Sam gymryd Absenoldeb Gofal Newyddenedigol tan 22 Ebrill. Bydd Absenoldeb Gofal Newyddenedigol Sam yn para tan 6 Mai. Mae Sam yn cymryd absenoldeb cynhalwyr (gofalwyr) ar gyfer y 7 diwrnod cyntaf.*

Daw Absenoldeb Gofal Newyddenedigol i ben os bydd unrhyw absenoldeb statudol arall yn tarfu arno. Mae modd ailddechrau absenoldeb gofal nad yw wedi'i ddefnyddio cyn belled â'i fod o fewn cyfnod Haen 1 neu Haen 2 o hyd;

- Yn Haen 1 rhaid cymryd yr absenoldeb sy'n weddill yn union ar ôl cwblhau'r cyfnod arall o absenoldeb statudol.
- Yn Haen 2 rhaid cymryd gweddill yr absenoldeb yn olynol ag absenoldeb newyddenedigol arall.

Does dim modd i'r gweithiwr ddechrau Absenoldeb Gofal Newyddenedigol yn Haen 2 os bydd unrhyw absenoldeb statudol arall yn tarfu arno.

Yn dilyn tarfu ar gymryd yr absenoldeb, does dim angen rhoi rhybudd newydd.

## 4.8 <u>Oes rhaid i mi roi rhybudd i gymryd absenoldeb?</u>

Bydd angen i weithiwr roi rhybudd i gymryd Absenoldeb Gofal Newyddenedigol. Bydd hyd a fformat rhoi'r rhybudd ar gyfer absenoldeb yn amrywio yn dibynnu a yw'r gweithiwr yn bwriadu cymryd absenoldeb yn Haen 1 neu Haen 2. Pan fydd angen gofal newyddenedigol ar blentyn gall fod yn gyfnod gofidus iawn ac felly mae'n dderbyniol i ffrind neu berthynas roi rhybudd yn enwedig yn Haen 1.

### <u>Haen 1</u>

Bydd angen i'r gweithiwr roi gwybod i'w  cyflogwr cyn y byddai disgwyl iddyn nhw ddechrau gweithio ar ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb, neu cyn gynted â phosibl a chyn pen 28 diwrnod o'r wythnos gyntaf os ydyn nhw'n hawlio tâl.  Does dim angen rhoi gwybod yn ysgrifenedig.

*Er enghraifft, mae babi gweithiwr yn derbyn gofal newyddenedigol ar 6 Ebrill. Dylai'r gweithiwr roi gwybod i'w cyflogwr cyn eu diwrnod cyntaf o absenoldeb, sef 14 Ebrill.*

### <u>Haen 2</u>

I gymryd un wythnos bydd angen i'r gweithiwr roi rhybudd o leiaf 15 diwrnod cyn dechrau cyfnod o absenoldeb. Am gyfnod o 2 wythnos neu fwy o absenoldeb, bydd angen i'r gweithiwr roi rhybudd o leiaf 28 diwrnod cyn dechrau'r absenoldeb. **Rhaid** rhoi rhybudd ysgrifenedig.

Mae'r Cyngor yn cydnabod na fydd yn bosibl rhoi'r rhybudd llawn mewn rhai amgylchiadau, felly dyma annog rheolwyr i fod yn hyblyg a dangos dealltwriaeth yn ystod cyfnod mor anodd. Felly, mae modd cytuno ar y cyd i hepgor neu gytuno ar gyfnodau rhybudd hwyr.

I gael absenoldeb a/neu dâl am absenoldeb wedi'i gymryd naill ai yn Haen 1 neu Haen 2, rhaid i weithiwr ddarparu'r wybodaeth ganlynol i'r cyflogwr drwy'r ffurflen yn Atodiad 3;

- enw'r gweithiwr
- dyddiad geni'r plentyn
- os yw'n berthnasol, dyddiad lleoli'r plentyn gyda'r mabwysiadwr neu'r darpar fabwysiadwr

- os yw'n berthnasol, dyddiad cyrraedd y plentyn ym Mhrydain Fawr i fyw gyda'r mabwysiadwr tramor
- y dyddiad y dechreuodd y plentyn dderbyn gofal newyddenedigol, neu bob dyddiad os derbyniodd y plentyn ofal newyddenedigol ar 2 achlysur neu fwy ar wahân
- os nad yw'r plentyn yn derbyn gofal newyddenedigol mwyach, y dyddiad y daeth y gofal i ben
- os dyma'r tro cyntaf i'r gweithiwr roi rhybudd, datganiad bod y gweithiwr yn bodloni'r meini prawf ar gyfer perthynas rhiant
- Y dyddiad, neu'r dyddiadau maen nhw'n bwriadu cymryd Tâl ac Absenoldeb Gofal Newyddenedigol
- eu bod nhw, y gweithiwr, wedi gofalu am y plentyn neu'n bwriadu gofalu amdano yn ystod yr wythnos neu'r wythnosau y mae'r rhybudd yn ymwneud â nhw.
- Cadarnhad bod y gweithiwr yn gymwys i gael yr absenoldeb a'r tâl.

Does **dim rhaid** dangos tystiolaeth bod y plentyn yn derbyn gofal newyddenedigol.

**Ystyriaethau eraill**

Mae gwybodaeth sy'n cael ei rhannu am blentyn sydd angen gofal newyddenedigol yn gyfrinachol ac ni ddylid ei rhannu ag eraill heb ganiatâd rhiant.

Yn ystod y 7 diwrnod cyntaf o ofal newyddenedigol, nid oes hawl i absenoldeb ac felly byddai'r Cyngor yn disgwyl i reolwyr ddangos dealltwriaeth ynghylch dod o hyd i ddewisiadau eraill ar gyfer y dyddiau hyn, boed â thâl neu heb dâl. Mae modd ceisio cyngor gan eich cynrychiolydd Adnoddau Dynol.

Os oes angen llai na 7 diwrnod olynol o ofal newyddenedigol ar fabi, yna nid oes gan y rhiant hawl i unrhyw Dâl nac Absenoldeb Gofal Newyddenedigol. Unwaith eto, mae'r Cyngor yn disgwyl i reolwyr ddangos dealltwriaeth a bod yn hyblyg wrth geisio ateb ym mholisïau'r Cyngor sy'n ystyriol o deuluoedd.

## 4.9 Profedigaeth

Os bydd plentyn gweithiwr yn marw ac mae wedi bod yn derbyn gofal newyddenedigol am fwy na 7 diwrnod yn olynol, efallai y bydd modd iddyn nhw gymryd Absenoldeb Gofal Newyddenedigol o hyd yn dilyn unrhyw absenoldeb arall a oedd wedi'i drefnu, er enghraifft Absenoldeb Mamolaeth, Mabwysiadu neu Dadolaeth.

Cyfeiriwch at Absenoldeb Profedigaeth i Rieni (Polisi Absenoldeb)

**Cyfeiriadau**

Y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS)

Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu

Brightmine

**CYFLWYNO CAIS AM ABSENOLDEB A THÂL CYMORTH MAMOLAETH**
**ATODIAD 1**

Eich dyddiadau ar gyfer absenoldeb a thâl:

Dyddiad disgwyliedig lleoli'r babi: ……………………………………

Neu, dyddiad geni disgwyliedig y babi: ......................................................

Os yw'r babi wedi cael ei eni, rhowch y dyddiad geni: ……………………………………

Hoffwn i'm Habsenoldeb Cymorth Mamolaeth (ar fy nghyfradd tâl llawn) ddechrau ar:

……………………………………………………………

Cyfenw: ……………………………………………………..

Enw(au) Cyntaf: ……………………………………………………..

Uwchadran/Adran: ..................................................................

Rhif y gyflogres: ...................................................

**Rwy'n datgan:**

mai fi yw tad/tad mabwysiadol/rhiant bwriadedig y plentyn neu bartner/cynhaliwr enwebedig y fam feichiog. (Y cynhaliwr enwebedig yw'r person sydd wedi cael ei enwebu gan y fam i helpu i ofalu am y plentyn a rhoi cymorth i'r fam ar adeg - neu o gwmpas adeg - y geni).

Yn achos 'cynhaliwr enwebedig', nodwch yn fras pam rydych chi'n gofyn am yr absenoldeb yma (er enghraifft, dydy'r gŵr na'r partner ddim ar gael a fi yw cynhaliwr enwebedig y fam feichiog.)

____________________________________________________________

____________________________________________________________

____________________________________________________________

Fi yw'r unig berson sydd wedi cael ei enwebu'n gynhaliwr ar gyfer y plentyn.

Bydda i'n absennol o'r gwaith er mwyn cynorthwyo'r fam neu ofalu am y plentyn.

**Rwy'n cytuno** y bydda i'n rhoi gwybod yn ysgrifenedig i'm rheolwr llinell am ddyddiad geni'r plentyn.

Llofnod: ………………………………….. Dyddiad: ………………………………

**Datganiad y Fam**

**Rwy'n cadarnhau mai** ____________________ sydd wedi'i enwi uchod, yw'r unig un sydd wedi nodi'n gynhaliwr enwebedig ar gyfer y plentyn ac nad oes unrhyw gymorth arall gyda fi i helpu i ofalu am y plentyn.

Llofnod: …………………………………... Dyddiad: ………………………………

| **CYFLWYNO CAIS AM ABSENOLDEB A THÂL TADOLAETH** **Atodiad 2** |
|---|
| Eich dyddiadau ar gyfer absenoldeb a thâl:<br><br>Dyddiad disgwyliedig lleoli'r babi: ……………………………………<br><br>Neu, dyddiad geni disgwyliedig y babi: ......................................................<br><br>Os yw'r babi wedi cael ei eni, rhowch y dyddiad geni: ………………………………………<br><br>Hoffwn i'm Habsenoldeb Cymorth Tadolaeth (ar fy nghyfradd tâl llawn) ddechrau ar:<br><br>……………………………………………………….. (rhaid i hyn fod cyn pen 14 diwrnod o leoli'r plentyn, neu'r enedigaeth, neu'r babi'n dod adref o'r ysbyty)<br><br>Hoffwn i'm cyfradd Tâl Statudol Tadolaeth ddechrau ar* .................................. *dileer os nad yw'n berthnasol<br><br>Cyfenw: ………………………………………………………..<br><br>Enw(au) Cyntaf: ……………………………………………………….<br><br>Uwchadran/Adran: ..........................................................................<br><br>Rhif y gyflogres: ....................................................<br><br>**Rwy'n datgan:**<br><br>mai fi yw tad/tad mabwysiadol/tad drwy fenthyg croth y babi/partner/cynhaliwr enwebedig y fam feichiog. (Y cynhaliwr enwebedig yw'r person sydd wedi cael ei enwebu gan y fam i helpu i ofalu am y plentyn a rhoi cymorth i'r fam ar adeg - neu o gwmpas adeg - y geni). Fi yw'r unig berson sydd wedi cael ei enwebu'n gynhaliwr ar gyfer y plentyn<br><br>**Rwy'n cytuno** y bydda i'n rhoi gwybod yn ysgrifenedig i'm rheolwr llinell am ddyddiad geni'r plentyn.<br><br>Llofnod: ………………………………….. Dyddiad: ……………………………… |

| |
|---|
| Os hoffech chi wneud cais am Absenoldeb Tadolaeth, rhaid i chi gydymffurfio â'r datganiadau canlynol er mwyn bod â hawl i'r Absenoldeb a derbyn Tâl Tadolaeth Statudol.<br><br>**Rwy'n datgan:**<br><br>Mai fi yw tad biolegol/tad mabwysiadol/tad drwy fenthyg croth y babi/fy mod i'n briod â'r fam/fy mod i mewn partneriaeth sifil â'r fam/fy mod i'n byw gyda'r fam mewn perthynas deuluol barhaus ond nad ydw i'n berthynas agos<br><br>Mae cyfrifoldeb gyda fi dros fagwraeth y plentyn<br><br>Bydda i'n absennol o'r gwaith er mwyn cynorthwyo'r fam neu ofalu am y plentyn.<br><br>Llofnod: ………………………………….. Dyddiad: ………………………………. |

**Atodiad 3**

## FFURFLEN TÂL AC ABSENOLDEB GOFAL NEWYDDENEDIGOL

| | |
|---|---|
| Enw'r Gweithiwr: | |
| Rhif Staff y Gweithiwr: | |
| Naill ai:<br>1. Dyddiad geni'r plentyn<br>neu<br>2. Ddyddiad lleoli'r plentyn gyda'r mabwysiadwr neu'r darpar fabwysiadwr.<br>neu<br>3. Ddyddiad cyrraedd y plentyn ym Mhrydain Fawr i fyw gyda'r mabwysiadwr tramor | |
| A yw'r plentyn wedi dechrau derbyn gofal newyddenedigol? | Ydy/Nac ydy |
| Os ydy, nodwch y dyddiad y dechreuodd y plentyn dderbyn gofal newyddenedigol. | |
| A yw'r gofal newyddenedigol wedi dod i ben? | Ydy/Nac ydy |
| Os ydy, nodwch y dyddiad y daeth i ben. | |
| A yw'r plentyn wedi gorfod derbyn gofal newyddenedigol ar fwy nag achlysur? | Ydy/Nac ydy |
| Os ydy, rhestrwch holl ddyddiadau dechrau a gorffen y gofal newyddenedigol. | |

| | |
|---|---|
| Nodwch y dyddiadau rydych chi'n bwriadu cymryd Tâl ac Absenoldeb Gofal Newyddenedigol. | |
| Os dyma'r tro cyntaf i chi roi rhybudd, llofnodwch i ddatgan eich bod chi'n weithiwr sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer perthynas rhiant. (Cyfeiriwch at y darpariaethau ar gyfer Absenoldeb Gofal Newyddenedigol yn y polisi) | Llofnod:<br><br>Dyddiad: |
| Llofnodwch i ddatgan eich bod wedi gofalu am y plentyn neu'n bwriadu gofalu amdano yn ystod yr wythnos neu'r wythnosau y mae'r rhybudd yn ymwneud â nhw. | Llofnod:<br><br>Dyddiad: |
| Cadarnhewch a ydych chi'n gymwys i gael yr absenoldeb.<br>Cadarnhewch a ydych chi'n gymwys i gael y tâl. | ✓/x<br><br>✓/x |
| Llofnod: | |
| Dyddiad: | |

**Atodiad 4**

# Flowchart: Understanding if neonatal care leave applies

**Has the baby been admitted to neonatal care?**

**Yes**

**Has the baby been in neonatal care for seven full continuous days?**

**No**

Employee is entitled to maternity, paternity or adoption leave and pay (according to eligibility requirements). Find more information on the CIPD employment law page on maternity, paternity and adoption rights.

**Yes**

**Is the employee already on maternity leave, adoption leave, shared parental leave or paternity leave?**

**No**

Neonatal care leave and pay does not apply. Outline the employee's rights to maternity, paternity or adoption leave and pay (according to eligibility requirements). Find more information on the CIPD employment law page on maternity, paternity and adoption rights.

**Yes**

In instances of maternity leave, which commences when the baby is born, the neonatal care leave accrues until maternity leave ends.

For other forms of statutory leave (eg paternity, adoption or shared parental leave), the employee can request Tier 1 leave while the baby is still in neonatal care, subject to notification requirements. Otherwise Tier 2 leave can apply to the end of statutory leave and/or be taken in one continuous block of week/s before the end of 68 weeks after birth.

**No**

Neonatal care leave begins.

Remember that neonatal care leave and pay is divided into two tiers:

Tier 1 is when the baby is still receiving neonatal care, and including one week after the care has ended. Tier 1 leave can be taken in an unlimited number of blocks to allow the employee to stop work at short notice to care for their baby in neonatal care.

Tier 2 is the period outside the Tier 1 period and before the end of 68 weeks from the date of the child's birth. Tier 2 leave will be taken in one continuous block.

Please note that paternity leave and shared parental leave can be taken flexibly around neonatal care leave. Maternity leave and adoption leave need to be taken first before neonatal care leave. For example, in Tier one a parent can choose to take their paternity leave before neonatal care leave but they can't do this for maternity or adoption leave.

Read the CIPD employment law page for more information on notification requirements and pay entitlements.

Please note: While every care has been taken in compiling this content, the CIPD cannot be held responsible for any errors or omissions. These notes are not intended to be a substitute for specific legal advice.
Last updated: March 2025 © CIPD